## Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Dinbych, Nos Wener Mai 3ydd 2019 yn Neuadd y Dref, Dinbych am 7 o'r gloch.

**Presennol:** Cynghorwyr Catherine Jones, Gaynor Wood-Tickle, Roy Tickle, Rob Parkes, Gaynor Morgan Rees, Colin L Hughes, Alyn Ashworth, Glenn Swingler, Guto Lloyd-Davies, Dyfrig Berry, Rhys Thomas, Irene Williams & Rachael Ayres; Jenny Barlow (Clerc y Dref) & Carys Jones (Cynorthwyydd Dinesig a Digwyddiadau).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Philip Stevens & Lara Pritchard,

1 **Gweddïau:** Agorwyd y cyfarfod trwy weddi gan Gaplan y Maer am y noson, Norma Rowles.

2. **Adroddiad Blynyddol y Maer:** Cyflwynodd y Maer, y Cyng Catherine Jones, adolygiad o'r flwyddyn ddinesig 2018 / 2019 gan gyfeirio at uchafbwyntiau'r prif ddigwyddiadau oedd wedi cymryd lle. Hefyd cyflwynodd y Maer ei 3 elusennau a ddewiswyd - CAB Sir Ddinbych, Gwasanaeth Ambiwlans Dinbych (diwygiwyd i Ymatebwyr Cyntaf Dinbych) & Infirmary Dinbych - Ward Macmillan gyda siec am £402.82 yr un.

3. **Ethol Maer:** Cynigodd y Cyng Glenn Swingler, eiliwyd gan y Cyng Rhys Thomas, a phenderfynwyd fod y Cyng Gaynor Wood-Tickle yn cael ei ethol yn Faer am y Flwyddyn Ddinesig 2019 / 2020.
Darllenodd ac arwyddodd y Cyng Gaynor Wood-Tickle y Datganiad Statudol yn Derbyn y Swydd ym mhresenoldeb y Cofiadur Anrhydeddus Barnwr Michael Baker, y Cynigydd a'r Eilydd.
Cyflwynodd y Cyng Catherine Jones Cadwyn y Swydd i'r Cyng Gaynor Wood-Tickle.
Cyflwynodd y Faeres ymddeol Mrs Nicola McIntyre, Cadwyn Swydd Cymar i'r Cyng Roy Tickle.

4. **Cyflwyniad:** Cyflwynodd y Maer, Blac Dinesig a Bathodyn Cyn Maer i Gyng Catherine Jones i gofio am ei blwyddyn yn y swydd. Cyflwynodd y Maer, Fathodyn Dinesig i Mrs Nicola McIntyre i gofio am ei blwyddyn yn y swydd.

5. **Pleidlais o Ddiolch:** Cynigodd y Cyng Gaynor Wood-Tickle bleidlais o ddiolch i'r Cyng Catherine Jones am y modd yr oedd hi wedi cyflawni ei dyletswyddau yn ystod y flwyddyn 2018 / 2019.

6. **Adroddiad y Maer:** Diolchodd y Maer newydd i'w Chynigydd a'i Eilydd ac yna anerchodd y cyfarfod.

7. **Ethol Dirprwy Faer:** Cynigodd y Cyng Glenn Swingler, eiliwyd gan y Cyng Guto Lloyd-Davies a phenderfynwyd fod y Cyng Rhys Thomas yn cael ei ethol yn Ddirprwy Faer am y Flwyddyn Ddinesig 2019 /2020.
Darllenodd ac arwyddodd y Cyng Rhys Thomas Datganiad yn Derbyn Swydd ym mhresenoldeb y Cofiadur Anrhydeddus Barnwr Michael Baker, y Cynigydd a'r Eilydd.
Cyflwynodd y Maer Cadwyn y Swydd i'r Cyng Rhys Thomas.
Cyflwynodd y Maer Cadwyn y Dirprwy Maeres i Mrs Lynn Thomas.

8. **Adroddiad Presenoldeb Cynghorwyr am y flwyddyn 2018 / 2019:** Cyfeiriodd y Maer at bresenoldeb blwyddyn fwrdeistrefol 2018 / 2019. Roedd dau gynghorydd sef y Cyng

Catherine Jones & Roy Tickle wedi llwyddo ar bresenoldeb 100%. Mabwysiadwyd yr adroddiad presenoldeb.

9. **Penodi Caplan y Maer:** Penododd Y Parchedig Ganon Pauline Walker yn Gaplan am y Flwyddyn Ddinesig 2019 / 2020.

10. **Gwasanaeth Dinesig:** Datganodd y Maer y byddai'r Gwasanaeth Dinesig yn Eglwys Y Santes Fair Dinbych, Dydd Sul 7fed o Orffennaf am 3 o'r gloch y prynhawn.

11. **Y Fendith:** I ddod â'r gweithgareddau i ben, traddodwyd y Fendith gan Gaplan y Maer am y noson, Norma Rowles.

Caeodd y Maer y cyfarfod am 7.45pm.

Llofnod:..................................................

Dyddiad:.................................................